

Cyfrifiad 2021
Ffrwyth Gweddi
Gofod Cynnes
A mwy...



Croeso...

Golygyddol	2
Nodiadau Cenhadol - cyfrifiad 2021	3
Ffrwyth Gweddi	4
Cartre Gofal unigryw	5
Newyddion Cymru	6
Newyddion y Byd	7
Dod i nabod: Y Chwaer Barnabas	8

Un o deitlau mwyaf swynol cyfrol o farddoniaeth yw Song at the Year's Turning gan R. S. Thomas. Cymerwyd y teitl o un o gerddi'r casgliad, ac mae'r gerdd honno'n sôn am hiraeth, dadrithiad a chariad coll:

Now the dream decays.

The props crumble; the familiar ways

Are stale with tears trodden underfoot.

The heart's flower withers at the root.

Bury it then, in history's sterile dust.


Erbyn hyn, i 'lwch diffrwyth hanes' y perthyn 2022, ac mae natur brudd y gerdd yn ddrych o'r flwyddyn a mwy a aeth heibio. Tybed a welwyd cyfnod mor llwm â hwn ers tro? Covid a'r pandemig, yr argyfwng hinsawdd, y rhyfel yn Wcrain, drama Brexit yn parhau, anrhefn yn y byd gwleidyddol a streiciau ar draws y bwrdd, ffoaduriaid yn cyrraedd y wlad yn eu miloedd mewn cychod bach, bregus, pris tanwydd yn codi i lefelau astronomig, chwyddiant a digartrefedd, ac yn nhrymder y gaeaf yr argyfwng costau byw yn dwysáu. Ac ar ben hynny, ystadegau'r cyfrifiad yn datgelu mai 40 y cant o drigolion yr ynysoedd hyn sy'n eu hystried eu hunain yn Gristnogion mwyach a chyfartaledd siaradwyr Cymraeg wedi disgyn i lai na deunaw y cant. Y gair a fathwyd i ddisgrifio hyn oll yw 'permacrisis', yr argyfwng parhaol, ac ar droad y flwyddyn does dim syndod i hyn gymylu golygon llawer.

Fodd bynnag, mae dathliadau'r flwyddyn newydd yn rhoi cyfle i Gristnogion atgoffa'u hunain am hyder, gobaith ac am gysuron oesol ein ffydd, a hyn yng ngoleuni cyhoeddiad Iesu yn synagog Nasareth ynghylch 'blwyddyn ffafr yr Arglwydd'. Eto nid cynnig gras tsiêp mae'r efengyl nac optimistiaeth arwynebol ond y gynhafiaeth sy'n sicrach na'n hamgylchiadau ac sy'n drech na phob anghrediniaeth. Gwyddai'r proffwyd Jeremeia hyn yn burion, ac mae'n dda gen i fod yr Alarnad sy'n gysylltiedig â'i enw wedi ei chynnwys fel rhan o'r datguddiad dwyfol: 'Yr wyf wedi f'amddifadu o heddwch', meddai, 'anghofiais beth yw daioni'; onid dyna oedd nodwedd 2022? Ond nid fel 'na mae'n gorffen:

Cofia fy nhrallod a'm crwydro, y wermod a'r bustl ... Meddyliaf yn wastad am hyn, ac felly disgwyliaf yn eiddgar. Nid oes terfyn ar gariad yr ARGLWYDD, ac yn sicr ni phalla ei dosturiaethau. Y maent yn newydd bob bore, a mawr yw dy ffyddlondeb. Dywedais, 'Yr ARGLWYDD yw fy rhan, am hynny disgwyliaf wrtho'. Da yw'r ARGLWYDD i'r rhai sy'n gobeithio ynddo, i'r rhai sy'n ei geisio. Y mae'n dda disgwyl yn dawel am iachawdwriaeth yr ARGLWYDD. (Galarnad 3: 17-26).

A dyna fy nymuniad innau i bob un ohonoch ar ddechrau'r flwyddyn hon.

D. Densil Morgan (Llywydd UBC 2022-23)



Cyfrifiad 2021 - gwae fi fy myw mewn oes mor dreng?

Ar ddiwedd 2022, daeth canlyniadau diweddaraf y cyfrifiad, gan ddangos am y tro cyntaf bod o dan hanner y bobl yng Nghymru yn galw eu hunain yn Gristnogion – a'r ganran yna o 43.6% yn is nag unrhyw ran arall o'r DU. Mae rhai o'r ardaloedd mwyaf digrefydd o unrhyw ran o Ynysioedd Prydain i'w canfod yng nghymoedd y De bellach, gydag ardaloedd fel Caerffili a Blaenau Gwent yn dod ar frig y tabl o ran mannau lleiaf crefyddol holl Gymru neu Loegr.

Gwyddom i gyd i'r ganran o Gristnogion sy'n arfer eu ffydd fod yn sylweddol is na hyn ers degawdau lawer, ond er hynny mae newid sylweddol yma o fewn ein diwylliant a'n cyd-destun y mae angen i ni ei gydnabod. Nid yw bellach yn wir bod y rhan fwyaf o bobl yn gwybod i ba gapel maen nhw'n perthyn ond nad ydyn nhw ddim yn ei fynychu; i'r rhan fwyaf o bobl yng Nghymru mae'n agosach ati i ddweud nad oes ganddynt ryw lawer o syniad pam fod y capeli hyd yn oed yn bodoli, a llai fyth o gysyniad o'r hyn y mae'n ei olygu i ddilyn Iesu Grist.

Bu dadlau iach os egni'ol ymhlith Cristnogion ynglŷn ag a ddylid cofleidio'r newid hwn fel peth da i'r eglwys neu a yw'n golled i'w edifar. Mae'n siŵr bod llawer o ddoethineb yn y ddau safbwynt.

Yr un peth na fydd yn digwydd, fodd bynnag, yw gweld dychwelyd i'r hen ddyddiau. Mae Duw bellach yn amlwg yn ein galw ni fel eglwys i'w ddilyn ac i dystio iddo mewn tirwedd wahanol i'r hon y cafodd y rhan fwyaf ohonom ein magu ynddi.

Ond er bod heriau niferus yn perthyn i fod yn Gristnogion mewn tirwedd seciwlar fel y Gymru sydd ohoni, cam rhy bell o lawer fyddai adleisio geiriau Hedd Wyn 'gwae fi fy myw mewn oes mor dreng', a hynny am ddau reswm. Yn gynta, nid yw 'Duw ar drai ar orwel pell'; y llynedd, gwelwyd 42 bedydd crediniwr yn eglwys Undeb Bedyddwyr Cymru, gyda rhai o bob oedran ac ym mhob rhan o'r wlad. Mae Duw ar waith o hyd!

Ac yn ail, da o beth i ni gofio yw mai o fewn byd a chymdeithas a oedd yn gwbl elyniaethus i'r ffydd Gristnogol y tyfodd yr eglwys a'r efengyl yn holl gyfnod y Testament Newydd wedi'r atgyfodiad. Pan na allwn gymryd lle breintiedig o fewn cymdeithas yn ganiataol bellach, mae ein sefyllfa mewn sawl ffordd yn debycach i'r hyn oedd yn wir i ddarlennwyr gwreiddiol llythyrau'r Testament Newydd, a'r disgyblion. Mae hynodrwydd arallfydol yn perthyn i'r efengyl Gristnogol; pam ddim rhoi cynnig ar geisio ei esbonio i eraill, a gweld beth yw eu hymateb?

Carwyn Graves
Swyddog Cenhadaeth



Ffrwyth gweddi

yn Noc Penfro

'Rwy'n credu bod yr hyn y mae'r eglwys yma yn gwneud yn wych,' meddai *Steve wrth i ni rannu te yng nghaffi bore lau Bethel yn Noc Penfro i sŵn bwrlwm cyson o weithgaredd. Roedd banc bwyd a phrosiect FareShare wedi bod ar agor drwy'r bore; i lawr y grisau roedd band addoli'r eglwys yn ymarfer tra bod grŵp crefft yn rhedeg yn yr ystafell arall. Ond ddeng mlynedd fer yn ôl, roedd eglwys Bedyddwyr Bethel yn Noc Penfro wedi edwino i grŵp o wyth o aelodau oedrannus yn cyfarfod yn y festri. Mae'r trawsnewidiad sydd wedi digwydd yn ddyledus, yn anad dim, i weddi ffyddlon.

'Dyw pethau ddim yn hawdd!' meddai Mike Bave, bugail yr eglwys ers 2013, 'dyn ni gyd yn gweithio'n galed yma! Ond rydyn ni mor ddiolchgar am yr hyn mae Duw yn ei wneud yn ein plith ac yn y gymuned hon.' Bymtheg mlynedd yn ôl, pan oedd Mike – crwt lleol o Hwlfordd – yn dal i fugeilio yn UDA, roedd sgysiau'n digwydd ynghylch dyfodol yr eglwys, a sut beth fyddai cau iddyn nhw.

Roedd y gynulleidfa fechan hon yn heneiddio ac adeiladau'r capel yn fawr ac mewn cyflwr oedd yn gwaethygu. Ond roedd un o'r diaconiaid, Maggie, wedi mynd adre ar ôl cyfarfod yn teimlo fod pwysau'n cael ei roi arnyn nhw fel eglwys i gau. Aeth i mewn a throir'r radio ymlaen. Roedd pregethwr yn siarad o Haggai, ac yn arbennig yr adnod sy'n son bod 'fy nhŷ i'n ddiffaith' (Haggai 1:4). Wedi ei herio gan hyn, penderfynodd Maggie weddio – ac ymunodd gweddill yr eglwys gyda hi. Roedd sawl rhwystr, ond dau beth amlwg oedd cyflwr gwael yr adeilad a'r angen am arweinydd – nid eu bod yn medru fforddio trwsio'r adeilad nac ychwaith cynnal bugail. Ond fe wnaethon nhw weddio i mewn i'r rhain a gwneud cais am fenthyciad o £40,000 gan Gronfa Adeiladu'r Bedyddwyr, a oedd, ynghyd â gostyngiadau gwrthiol gan adeiladwyr, a drysau'n agor yn annisgwyl o ran statws rhestredig y capel, yn golygu bod pethau'n digwydd yn sydyn.

Ar yr un pryd, roedd Mike a'i wraig Mary yn hapus yn arwain eglwys yn America, heb feddwl yn y byd y byddai Duw yn eu harwain i Gymru eto. 'Ond un tro dyma fi'n dechrau cyfres yn pregethu ar genhadaeth o lyfr Genesis,' cofia Mike, 'ac yn helaethu ar orchymyn Duw i 'ddychwelyd i dir eich tadau', sydd wrth gwrs hefyd yn rhan o anthem genedlaethol Cymru. Ailadroddais y bregeth honno dair gwaith y penwythnos yna cyn sylweddoli y trydydd tro bod hyn yn neges i ni!'

Ond doedd ganddyn nhw ddim syniad sut fyddai symud i Gymru yn bosib. Ar ôl cyfres o ddigwyddiadau annisgwyl a sgysiau siawns, dyma nhw'n canfod eu hunain yn cael eu dangos o amgylch adeilad Bethel yn Noc Penfro ac yn sylweddoli bod Duw yn eu harwain yno. Syrthiodd y rhwystrau ymarferol i ffwrdd yn raddol – daeth y VISA, cwestiynau enwadol yn cael eu trafod a'u setlo, a hyd yn oed y cyllid ar gyfer y swydd yn cael ei ddarparu. Ac yn 2013, cafodd Mike ei sefydlu'n weinidog ar yr eglwys.

'Ers hynny, rydym wedi bod wrthi'n adeiladu'n araf,' meddai Mike wrth fyfyrto. 'Mae llawer o'n gweinidogaeth wedi ei hadeiladu o gwmpas bwyd' – yn ogystal â'r caffi a'r banc bwyd mae'r eglwys hefyd yn rhedeg bwyty talu-beth-allwch-chi sy'n gweini cinio rhost bob wythnos, a digwyddiadau i blant o'r dref, sy'n cynnwys digon o fwyd. 'Mae hon yn ardal ddifreintiedig, ond mae'na gymuned gref. Rydyn ni wedi gorfod gwneud llawer o waith i wneud yr adeilad yn fwy croesawgar i bobl sydd ddim wedi arfer gyda chapel hen ffasiwn ac wedi gosod lifft er mwyn cael mynediad rhwydd i'r llawr cynatf, cypyrddau enfawr i'r banc bwyd a mwy.'

'Wrth gwrs mae'n bleser gweld yr eglwys yn tyfu', meddai Mike gyda gwlân dyner wrth iddo nodi eu bod nhw fel arfer dros 40 o bobl ar ddydd Sul erbyn hyn. 'Ond y llawenydd mwya yw gweld pobl yn dod i ffydd – dyna sail y cyfan i ni mewn gwirionedd.' Mae'n rhyfeddol meddwl bod ffydd rhai o'r credinwyr newydd hyn yn ddyledus i raddau helaeth i weddi ffyddlon a pharhaus y grŵp bach o gredinwyr yr oedd Bethel wedi edwino iddo bymtheg mlynedd yn ôl – a'r hyn mae Duw wedi ei wneud gyda hynny.



Cartref Glyn Nest

Yn Serennu...

'Peth mawr yw rhoi'r person chi'n caru mwya'n y byd i ofal rhywun arall!' Yr her fawr i gartre preswyl yw i anrhydeddu hynny – a dyna mae Glyn Nest, cartref preswyl Undeb Bedyddwyr Cymru, wedi llwyddo i wneud gan dderbyn adroddiad disglair oddi wrth Arolygiaeth Gofal Cymru eleni.

Lle i 28 o ddeiliaid sydd yn y cartre preswyl unigryw yma, sy'n swatio ar lethr goediog ar gyrion tre farchnad Castellnewydd Emlyn. Ond er mai cartre'r Bedyddwyr yw Glyn Nest, gyda Mudiad y Chwiorydd ymhlith eraill yn allweddol wrth ei sefydlu a'i chynnal, nid cartre ar gyfer Bedyddwyr yn unig mohono. 'Dilyn egwyddor y Samariad trugarog rydym ni yma – yn croesawu pawb yn ddi-wahân, ac yn trio rhoi'r gofal Cristnogol gorau iddyn nhw.' Dyna mae'r arolygiaeth wedi ei chydabod yn ei hadroddiad diweddar, sy'n canmol amgylchedd 'groesawgar' a 'chartrefol' y cartre, gan nodi bod 'anghenion...unigol y bobl yn bwysig' i staff 'ymroddgar' y cartre. Beth felly sydd wrth wraidd hyn – mewn oes pan fydd cymaint o newyddion drwg yn dod o gartrefi preswyl?

'O, mae sawl peth weden i,' meddai Jayne, rheolwraig y cartre sy wedi gweithio yno ers canol yr 80au. 'Dwi yn meddwl yn amal bod eisiau treulio diwrnod yn sgidie un o'r deiliaid yma er mwyn cael dealltwriaeth go iawn. Mae parchu'r unigolyn yn iawn yn bwysig dros ben i ni, ac mae hynny'n meddwl bod teuluoedd yn rhan bwysig o'r cartre – wrth dderbyn person, rydych chi'n derbyn y teulu hefyd!' Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y negeseuon o ddiolch sy'n dod i'r cartre o deuluoedd deiliaid, fel hyn o fis Hydref 2022 - 'gair bach i ddiolch o waelod calon am ofalu am Dad mewn

modd tyner, caredig a gofalus....rydyn ni'n eich cyfri'n ffrindie'.

Er bod pob diwrnod yn wahanol, mae rhythm gymunedol hamddenol yn nodweddu bywyd y Cartre. Ar ôl newid o staff y nos i staff y dydd a threfnu'r feddyginiaeth fore, daw'n amser brecwast a dewis i bobl ei gymryd yn y gwely neu i lawr gyda phawb arall. Yna cinio poeth o gynnyrch lleol wedi coginio gartre (caserol cyw iâr, cinio dydd Sul, cig moch mewn saws persli ayyb) a chyfle am gwsg, neu weithgareddau yn y prynhawn; popeth o drin gwallt, gwneud cardiau a chrefft a therapi anifail anwes.

Yna bob mis bydd oedfa gymun dan ofal Pwyllgor y Tŷ, a gwasanaethau eraill dan ofal y Caplan, y Parch Sian-Elin Thomas. 'Mae'n fraint cael bod mewn perthynas gyda phobl fel hyn, a bod yn glust iddyn nhw! Dwi mewn a mas o'r cartre drwy'r amser, ond mae'r oedfaon yn arbennig achos un peth sy'n gwbl sicr yw bod deiliaid Glyn Nest yn dwlu canu! Ac mae sawl un wedi dweud dros y

blynnyddoedd gymaint maen nhw'n joio pregethu yma hefyd – maen nhw'n gynulleidfa sbesial'

Beth oedd i gyfri felly fwya am naws unigryw y lle, pan fod cynnal hynny mor heriol heddiw? Ym marn Jayne, roedd cyfuniad o bethau ar waith, 'ac efallai yn y bôn mae 'na elfen gartrefol o groeso Cymraeg rydyn ni'n arddel yma.' Ac, noda'r Parch Irfon Roberts, Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli, er nad yw pob aelod o staff yn Cristion, maen nhw i gyd yn gwerthfawrogi pwysigrwydd yr ethos person-ganolog sy'n deillio o seiliau ffydd y Cartre. 'Nid oes yn y Beibl le na chyfiawnhad i'r hyn a alwn heddiw yn *ageism*', meddai, 'Yn hytrach, mae Duw yn addo bod gyda ni yn ein henaint, yn ein cynnal, ac yn ein gwarchod.'

Am ragor o wybodaeth am Cartre Glyn Nest, edrychwch ar www.glynnest.co.uk/cy

Oes yna rywun yn eich eglwys neu'ch teulu chi sy'n ystyried opsiynau gofal at y dyfodol? Mae croeso i chi gysylltu â'r cartre am sgwrs anffurfiol unrhyw bryd trwy ffonio 01239 710950.



Newyddion o blith....

Undeb Bedyddwyr Cymru

Gofod cynnes - a bwyd



'Yn anffodus, mae'r anghenion yn ein cymdeithas wedi tyfu i'r fath raddau fel bod mannau cynnes wedi dod yn anghenraid i lawer ledled y wlad, gyda mannau cynnes yn ymddangos mewn llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol ac hyd yn oed amgueddfeydd. Ond mae llawer o'r gofodau hyn yn cael eu rhedeg gan eglwysi, ac mae eglwysi Bedyddiedig wedi teimlo'r alwad i weld sut y gallant ddefnyddio eu cyfleusterau i gyfrannu at gyrraedd yr angen mawr yma - gan gyfuno'r angen am gynhesrwydd gyda bwyd a chwmnïaeth.

'Fel llawer o eglwysi, rydym wedi ei chael yn her i weld sut allwn ni helpu pobl yn ein cymuned yn ystod y gaeaf,' meddai Phil Hibbert, gweinidog Eglwys Bethel yn Llanilltud Fawr, Bro Morgannwg. Mae'r eglwys ei hun wedi sefydlu'r hyn y mae'n ei alw'n "Warm Wednesdays", sy'n rhedeg yn syth ar ôl ysgol pan fydd y banc bwyd (sy'n cael ei gynnal ym Methel) yn gorffen. 'Mae'r gofod cynnes yn cynnig yn union hynny,' eglura Phil, 'awyrgylch hamddenol a chynnes.' Mae yno ddioddydd poeth, byrbrydau, tegantau ac ardal lle gellir gwneud gwaith cartref.

Dywed Phil eu bod wedi ceisio ei gadw mor agored â phosib o ran yr hyn maent yn ei gynnig 'oherwydd ein bod am i'r rhai sy'n mynychu ddweud wrthym beth sydd ei angen arnynt, yn hytrach nag ein bod ni cyn cymryd hyn yn ganiataol.' Yn yr un modd yn Aberteifi, mae Eglwys Mount Zion wedi agor eu hadeilad bob dydd Mawrth o 3:30pm tan 9pm, gyda phryd o fwyd dau gwrs yn ffurfio canolbwynt i'r cyfnod hwn - boed yn gawl a chrymbl neu'n daten bôb gyda brownie i bwdin. Ac yng Nghaernarfon, mae Caersalem bellach yn rhedeg sesiwn 'Cawl a Chwmni' dros amser cinio estynedig bob dydd Iau. Fel mae Rhys Llwyd, bugail yr eglwys, yn esbonio 'os ydych chi fel cymuned eglwysig yn mynd i wario arian ar redeg adeilad, yna mae angen i ni ei ddefnyddio i wasanaethu pobl. Beth ydy hi'n ei olygu i ddangos cariad Cristnogol yn y tymor hwn os nad gwneud rhywbeth fel hyn?'

Biliau... a bendith

'Mae'r cynnydd parhaus mewn biliau ynni yn cyflwyno cyfleoedd i'n heglwysi ac rydym wedi bod o bosib yn araf i'w cymryd yn y gorffennol. Mae ein grŵp bach o dri chapel gwledig wedi ymuno â dau gapel bach arall, nad oes ganddynt eu gweinidog eu hunain, i rannu gwasanaethau - yn ystod misoedd y gaeaf i ddechrau. Rydym bellach yn hwyluso trefniadau ymarferol i gynnal gwasanaethau o gwmpas y capeli yn eu tro, ynghyd â threfnu trafniadaeth. Gall fod hyn fod yn benderfyniad sylweddol at y dyfodol. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd newydd i ni ddod i adnabod ein gilydd yn well, i gefnogi ein gilydd a chynnal presenoldeb Cristnogol yn ein cymunedau.

Gan fod dros 90% o'n cynulleidfaoedd wedi cyrraedd oed yr addewid eu hunain, rydym yn fwy ymwybodol o anghenion y bobl hyn yn ein cymunedau ac yn ymateb lle bynnag y bo modd: dim ond un mater yw'r pryder dros gostau byw. Ers dod yn Gaplan Anna - sef caplaniaeth i gynnig gofal ysbrydol i bobl oedrannus - dwi wedi bod yn ymwybodol iawn mai dim ond cyffwrdd pen eitha'r peth ydw i a bod cymaint o bobl hyn sydd angen rhywun i siarad â nhw ac i wrando ar eu pryderon, ac sydd â chymaint i'w roi o hyd.

Dros yr wythnosau nesaf rwy'n gobeithio ennyn brwdfrydedd pobl i rannu yn y fraint o gerdded ochr yn ochr â'r bobl fwyaf anhygoel yn eu henaint, pobl sydd â straeon gwych i'w hadrodd yn aml; straeon am wytnwch, hiwmor a gobaith. Y cysylltiad dwfn hwn, o gymrodoriaeth a chefnogaeth ar y cyd ar daith bywyd, yw'r hyn a fydd yn ein cadw'n 'gynnes' y gaeaf hwn. Gall realiti oer biliau gwresogi uwch esgor ar gynhesrwydd bendithion annisgwyl.

Y Parch Maggie Rich, Y Drenwydd

Cynadleddau 2023

Mae arlwy gyfoethog o gynadleddau ar ei ffordd ar gyfer tymor yr haf. Dyma'r dyddiadau i'w cadw:

10 Mehefin - Momentum (ar y cyd â Bedyddwyr eraill Cymru), Caerfyrddin, £12 y pen (gw poster i'r dde)

23-24 Mehefin - Cynhadledd Flynyddol Gymraeg yr Undeb, Tabernacl Caerdydd

10 Gorffennaf - Diwrnod busnes adran ddi-Gymraeg UBC, Moriah Risca



Twf y Deyrnas yn Nhwrci

Mae Twrci yn tyfu yn ei seciwlariaeth. Mae Islam yn bresennol ymhob man ond mae'r genhedlaeth iau yn ei anwybyddu'n gynyddol. Fel Gorllewin Ewrop mewn cyfnod ôl-Gristnogol, mae'n ymddangos bod Twrci yn datblygu i fod yn wlad ôl-Islamaidd. Mae'r mosgiau'n dal yno gyda'u galwadau i weddi ond mae llai o bobl yn ymgynnull i weddio. Mae hyn oll yn cael effaith sylweddol ar yr eglwys Gristnogol. Bellach gall eglwysi Bedyddiedig gofrestru'n swyddogol, rhentu neu brynu eiddo ac ymwneud ag addoliad cyhoeddus. Mae angen doethineb mawr o hyd pan ddaw hi at efengylu. Peth heriol yw dod yn Gristion yn ddiwylliannol a gall arwain at nifer o broblemau teuluol. Ond mae mwy o bobl yn dod i ffydd yn Iesu Grist, ac yn cael eu bedyddio'n dystiolaeth gyhoeddus o'u ffydd newydd.

Yn gweithio yn y cyd-destun hwn mae grŵp bach sy'n arbrofi gydag amrywiaeth o ddulliau o genhadu a gweinidogaeth o dan faner Cynghrai Bedyddwyr Twrci. Yn Izmir, rhoddwyd adeilad Eglwys Anglicanaidd i'r Bedyddwyr dros 20 mlynedd yn ôl i'w ddefnyddio fel man addoli. Mae addoliad yn digwydd ar ddydd Sul, gydag astudiaeth Feiblaidd ganol wythnos a mynediad at astudiaethau diwinyddol unwaith yr wythnos – ac mae llawer o bobl leol yn dod i edrych ar y lleoliad unigryw hwn yn y ddinas ac yn derbyn teithiau tywys gan aelodau'r eglwys sy'n egluro iddyn nhw beth yw natur eu ffydd. Yna, mae teulu wedi mynd i ddinas Bergama i blannu'r eglwys gynta yno ers canrif. Ond does neb yn y ddinas yn gwybod beth yw eglwys. Ai peth Americanaidd fel y gwelan nhw ar y teledu yw hyn? Sut beth yw eglwys Dwrcaidd? Beth fyddden nhw'n ei wneud? Hyd yn hyn, mae'r ceisiadau am adeilad i addoli wedi eu gwrthod. O'r herwydd mae'r eglwys wedi penderfynu cyfarfod y tu allan yn y parc. Ac yn Istanbul mae fflat wedi ei droi'n eglwys, er nad oes arwyddion y tu allan yn hysbysebu'r ffaith honno. Ar hyn o bryd, mae dros 600 o bobl yn gofyn i'r eglwys honno am gymorth i archwilio'r ffydd Gristnogol.

Alan Donaldson, Ffederasiwn Bedyddwyr Ewrop



Erledigaeth ar gynnydd yng Ngogledd Corea

Mae Gogledd Corea unwaith eto wedi'i bennu yn rhif un ar Restr Gwyllo'r Byd: y wlad lle mae Cristnogion yn wynebu'r erledigaeth fwyaf am ddilyn Iesu yn ôl elusen Open Doors. Mae'r wlad wedi bod ar frig y tabl ers 2002; y llynedd, er i'r genedl gwympto i'r ail le, roedd erledigaeth yn waeth nag erioed. Eleni, y sgôr erledigaeth 98/100 yw'r uchaf a gafodd gwlad erioed mewn 30 mlynedd o redeg Rhestr Gwyllo'r Byd. Mae wedi bod yn lle creulon o elyniaethus i Gristnogion ers amser maith. Os caiff Cristion ei ddarganfod gan yr awdurdodau, caiff naill ai ei hanfon i wersyll llafur fel carcharor gwleidyddol lle mae'r amodau'n erchyll, neu fe gaiff ei ladd neu ei lladd yn y fan a'r lle - a bydd eu teuluoedd yn rhannu eu tynged hefyd. Does gan Gristnogion ddim rhyddid o gwbl. Mae hi bron yn amhosib i gredinwyr ymgynnull neu gyfarfod i addoli. Rhaid i'r rhai sy'n meiddio cwrdd wneud hynny yn gyfangwbl gyfrinachol – ac mewn perygl enfawr.

Eleni, mewn un digwyddiad arswydus y clywodd Open Doors amdano trwy ffynonellau dibynadwy, darganfuwyd a dienyddiwyd dwsinau o gredinwyr Gogledd Corea o wahanol eglwysi tanddaearol. Dywedwyd bod dros 100 o aelodau a'u teuluoedd wedi eu hel ynghyd a'u hanfon i wersylloedd llafur. Ffactor cyfrannol arall yw'r 'gyfraith feddwl wrth-adweithiol' a gyflwynwyd yn ddiweddar, sy'n ei gwneud yn glir bod arddel Cristnogaeth ac/neu feddu ar Feibl yn drosedd ddifrifol a fyddai'n cael ei gosbi'n llym.

Cyda diolch i Open Doors. Beth am gymryd eiliad i weddio nawr dros Gristnogion yng Ngogledd Corea?

Ac ar draws...
Y Byd



Deng munud yng nghwmni... *Y Chwaer Barnabas*

Mae yna bobl o bob math yn ein heglwys, a storïau o waith Duw yn cyfoethogi bywydau. Y tro hwn, dyma gwrdd ag un o frwydrwyr gweddi'r Undeb....

Diolch am adael i ni glywed eich stori! Eich enw go iawn yw Valerie Davies, ond allwch chi ddechrau drwy ddweud wrthym sut y daethoch i gael eich galw'n Chwaer Barnabas?

Roeddwn i'n weinidog gyda'r Bedyddwyr, ac yn fodlon fy mynd yn gwasanaethu yn Abercarn, Gwent am 23 o flynyddoedd, ond yn sydyn yn 2005 bu farw fy ngŵr, a do'n i jest ddim yn gwybod beth i wneud ar ôl hynny. Ond un bore, pan oeddwn wrthi'n gweddio, dyma fi'n teimlo presenoldeb Duw yn llenwi'r gofod a'i fod yn fy ngalw i fod yn weddiwr. Daeth cadarnhad pellach o sawl cyfeiriad, a sylweddolais y dylwn gael enw newydd i gyd-fynd â'r alwedigaeth newydd hon. Roedd cyn-ysgrifennydd UBC yn arfer dweud wrthyf ar y ffôn fy mod yn anogwr – ac felly daeth yr enw 'Barnabas' o'r TN i'r meddwl!

Dyna hyfryd. Ond sut beth yw 'gweinidogaeth weddi' o ddydd i ddydd?

Mae'n dechrau bob dydd yn y gawod! Hollalluog Dduw, i ti y mae pob calon yn agored, pob dymuniad yn hysbys, a phob dirgel yn amlwg...' Rwy'n gofyn iddo roi popeth sydd ei angen arnaf yn ysbrydol er mwyn i mi fod yn llestr i'w ddefnydd ef; mae popeth mewn gweddi yn dechrau gyda bod yn y lle iawn gyda Duw. Yna mae gen i ddefosiwn boreol; darnau o'r Beibl ac o lyfr emynau, cyn symud ymlaen i ddyddiaduron gweddi i wneud ceisiadau dros y byd (BMS) a materion cyffredinol, cyn dod i geisiadau gweddi rwyf wedi eu derbyn yr wythnos honno.

Roeddwn i wedi disgwyl i weinidgaeth weddi ond gynnwys gweddio, ond mae'r weinidogaeth wedi arwain at wneud llawer o bregethu ac rydw i hefyd yn ymwneud â chanolfan Ffald-y-Brenin, i lawr y ffordd o ble dwi'n byw ger Abergwaun.

Cymaint o her yw cael clywed am eich bywyd gweddi! Sut wnaethoch chi ddod yn Gristion am y tro cyntaf?

Wel yn sicr doeddwn i ddim wedi fy magu'n Gristion. Des i allan o briodas anodd ag awch ynof i ddarganfod y gwir am fywyd. Dechreuais edrych i mewn i bob math o athroniaeth ond bob tro roeddwn yn mynd mor bell ac roedd fel petai yna ddibyn wedi 'ny a gallwn i ddim mynd cam ymhellach. Yna un diwrnod roeddwn i'n rhannu hyn gyda ffrind o Gristion yn y gwaith a dywedodd 'wyt ti wedi ystyried person Iesu Grist?' Roeddwn i'n teimlo fy mod i wedi cael fy mhwnio - yn y ffordd orau bosib! Es i ffwrdd, a thrwy ddarllen y Beibl am y tro cyntaf a chael fy arwain yn wyrthiol i eglwys Fedyddiedig leol, deuthum i ffydd – ac yn nes ymlaen i'r weinidogaeth hefyd.

Yn olaf, beth sydd wedi bod yn eich annog chi yn ddiweddar?

Dwi'n meddwl mai'r cadarnhad dwi'n ei dderbyn dro ar ôl tro nid yn unig o ran gweddïau sy'n cael eu hateb, ond sut mae neges o anogaeth oddi wrth Dduw yn troi allan i fod yn union yr hyn oedd ei angen ar y pryd. Digwyddodd hyn wythnos ddiwethaf er enghraifft, lle'r oedd neges yr oeddwn wedi ei throsglwyddo i rywun yn union yr hyn roedd angen – ac yn y diwedd roedd yn galonogol iawn i'r person hwnnw, a minnau hefyd!

Diolch, Chwaer Barnabas

Cynhyrchir Y NEGESYDD dair gwaith y flwyddyn gan Undeb Bedyddwyr Cymru. Serch hynny, ni ddylid cymryd safbwyntiau a fynegir yn y cylchgrawn hwn fel petaent yn cynrychioli barn swyddogol yr Undeb ar unrhyw fater. Swyddfa gofrestredig:

Y Llwyfan, Heol y Coleg, Caerfyrddin, SA31 3EQ

Ffôn: 0345 222 1514 [9-5 Llun - Gwener]

post@ubc.cymru

www.ubc.cymru

